**PAPURAU BUSNES**

**13 Chwefror 2001**

**Rhan 1 – Adran G**

**Rhybudd o Gynigion a Gwelliannau i'w Trafod yn y Dyfodol**

**Cynigion a gyflwynwyd ar 6 Chwefror 2001**

**NDM530 William Graham (Dwyrain De Cymru); Alun Cairns (Gorllewin De Cymru)**

Mae'r Cynulliad hwn yn nodi petruster y Pwyllgor Datblygu Economaidd ynghylch Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol y Dirprwy Lywydd, ac yn gresynu at gyhoeddiad cynamserol dogfen:

- nad yw'n cynnwys digon o fanylion polisi
- sy'n pennu targedau twf afrealistig
- ac sy'n methu â mynd i'r afael â'r problemau sy'n wynebu'r sectorau amaethyddiaeth a gweithgynhyrchu.

**NDM531 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn mabwysiadu'r ddogfen ddiwygiedig, "Canllawiau i Aelodau'r Cynulliad ar Gofrestru a Datgan Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill Aelodau", a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2001.

**NDM532 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn cymeradwyo "Gwella Iechyd yng Nghymru – Cynllun i'r GIG ynghyd â'i bartneriaid" (a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2001), a'r camau y mae yn eu hargymell.

2. Yn llongyfarch y Weinyddiaeth Bartneriaeth ar Gynllun sydd yn feiddgar yn ogystal ag yn radical, ac sydd

- yn symleiddio'r modd y gweinyddir y gwasanaeth iechyd yng Nghymru a'i wneud yn haws i'w ddeall
- yn creu gwasanaeth iechyd yng Nghymru sydd yn rhoi'r pwys mwyaf ar ofal sylfaenol
- yn pwysleisio rôl mesurau ataliol, yn ogystal â mesurau iechyd y cyhoedd, i wella

iechyd y boblogaeth

- yn gwella’r agwedd *leol* ar gynllunio a darparu gwasanaethau
- yn cryfhau’r llais democrataidd yn y broses o ddarparu a chynllunio’r gwasanaeth iechyd yn strategol yng Nghymru
- yn adeiladu ar bartneriaethau hanfodol gyda llywodraeth leol ac eraill
- yn darparu lefelau adnoddau uwch nag erioed er mwyn gwella iechyd poblogaeth Cymru
- yn gwerthfawrogi cyfraniad staff ar bob lefel
- yn cadarnhau ymroddiad y Weinyddiaeth i fynd i’r afael ag anghydraddoldeb iechyd
- yn ail-gadarnhau’r pwysigrwydd y mae pobl Cymru yn ei roi ar wasanaeth iechyd sydd o’r ansawdd uchaf, ac sydd wedi’i seilio ar angen yn hytrach na’r gallu i dalu.

**Gwelliannau a gyflwynwyd ar 8 Chwefror 2001**

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu’r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM 530**

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Dileer "gresynu", gan roi "nodi" yn ei le.

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Dileer

- "sy’n pennu targedau twf afrealistig", gan roi’r canlynol yn ei le:
- "nad yw’n pennu targedau priodol ar gyfer cynnydd net mewn cyflogaeth yn amryfal ranbarthau economaidd Cymru"

**3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Dileer "ac" yn y trydydd pwynt bwled, ac ychwaneger y canlynol fel pedwerydd pwynt bwled newydd:

- "ac nad yw’n nodi a fydd angen adnoddau sylweddol, nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y gyllideb ragolwg bresennol, ar gyfer y strategaeth sy’n cael ei hargymell."

**NDM532**

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Dileer *"cymeradwyo"* o bwynt bwled un gan roi *"nodi"* yn ei le.

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Dileer popeth o "*(a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2001)"* ac ychwaneger y canlynol fel pwynt bwled 2 newydd:

Yn cydnabod mai trwy’r camau a gymerir, yn ogystal â’r ymrwymiad a leisir, y mae mesur llwyddiant arweinyddiaeth radical, ac felly mae’n ymrwymo’r Weinyddiaeth Bartneriaeth i:

- Greu corff strategol Cymru-gyfan yn lle’r awdurdodau iechyd a fydd yn cael eu diddymu er mwyn rhoi diwedd ar y loteri cod post sy’n bod ar hyn o bryd o ran darparu gwasanaethau
- Cynyddu ymhellach nifer y lleoedd hyfforddi sydd ar gael ar gyfer staff yr NHS a datblygu model "campws Cymru-gyfan" ar gyfer addysgu israddedigion meddygaeth
- Cydnabod yr angen i bennu targedau cydlynol ym maes Adnoddau Dynol er mwyn sicrhau llwyddiant wrth gynllunio’r gweithlu yn y tymor hir
- Ail-werthuso rôl y Fenter Cyllid Preifat
- Datblygu dull cydlynol o weithredu wrth fynd ati i leihau amserau aros, nad yw’n dibynnu’n unig ar bennu targedau, ond ar gynyddu gallu er mwyn rhoi gofal gwell i gleifion, yn ogystal â phennu amserlen gyhoeddus ar gyfer cyflwyno system neilltuo lle a blaenoriaethu ar draws Cymru.
- Croesawu unrhyw gynllun ar gyfer yr NHS sy’n:
- pwysleisio rôl mesurau ataliol, yn ogystal â mesurau iechyd y cyhoedd, o ran gwella iechyd y boblogaeth
- gwella’r agwedd leol ar gynllunio a darparu gwasanaethau
- cryfhau’r llais democrataidd yn y broses o ddarparu a chynllunio gwasanaethau iechyd yn strategol yng Nghymru
- adeiladu ar bartneriaethau hanfodol gyda llywodraeth leol ac eraill
- gwerthfawrogi cyfraniad staff ar bob lefel
- Ail-gadarnhau’r pwysigrwydd y mae pobl Cymru yn ei roi ar Wasanaeth Iechyd Gwladol sydd o’r ansawdd uchaf ac sydd wedi’i seilio ar angen yn hytrach na’r gallu i dalu.

**3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Ychwaneger fel pwynt bwled 3:

Ymrwymo’r Weinyddiaeth Bartneriaeth i ystyried, mewn dadleuon yn y cyfarfod llawn ac yn y pwyllgorau, ganlyniadau ymestyn gofal personol rhad ac am ddim fel rhan o’r newidiadau i’r dulliau o ariannu gofal y bwriedir eu cyflwyno fel rhan o’r strategaeth ar gyfer yr henoed a amlinellir gan y Weinyddiaeth Bartneriaeth yng Nghynllun yr NHS.

**4. William Graham (Dwyrain De Cymru);**

Ym mhwynt un, dileer "cymeradwyo", gan roi "nodi" yn ei le

**5. William Graham (Dwyrain De Cymru);**

Dileer pwynt dau i gyd, gan roi’r canlynol yn ei le:

2. Yn gresynu bod y Weinyddiaeth Ddemocrataidd Ryddfrydol/Llafur wedi:

- methu â phennu targedau craidd ar gyfer recriwtio staff ac ar gyfer yr amserau hiraf y dylai cleifion aros;
- diystyru’r posibilrwydd o ragbrofi Ymddiriedolaethau Gofal yng Nghymru fel sy’n cael ei ganiatáu yn y Mesur Iechyd a Gofal Cymdeithasol sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd;
- penderfynu canoli’r gwaith o reoli NHS Cymru yn swyddfa’r Gweinidog.

**6. William Graham (Dwyrain De Cymru);**

Ychwaneger pwynt tri newydd:

3. Yn nodi y bydd y sail statudol ar gyfer Grwpiau Iechyd Lleol yn diflannu pan ddiddymir yr Awdurdodau Iechyd ac yn argymell felly bod y Grwpiau Iechyd Lleol yn cael eu hail gyfansoddi o dan Ran 1 o Ddeddf Iechyd 1999.

**7. William Graham (Dwyrain De Cymru);**

Ar ddiwedd y cynnig, ychwaneger:

Ar ôl diddymu’r Awdurdodau Iechyd, yn breinio unrhyw bwerau sydd gan yr Awdurdodau Iechyd nad ydynt yn cael eu trosglwyddo i Grwpiau Iechyd Lleol mewn corff hyd braich Cymru-gyfan, o’r enw *Lles Cymru*, a fydd yn:

- gweithredu’r penderfyniadau strategol sy’n cael eu cymryd gan y Cynulliad Cenedlaethol i hybu iechyd a lles pobl Cymru;
- sicrhau nad yw gwleidyddion yn cael rhan yn y gwaith o reoli’r NHS, ac;
- ar ôl cael cyngor panel annibynnol, argymell unrhyw ad-drefnu mawr ar y gwasanaeth iechyd a fydd, o bosibl, yn angenrheidiol.